

PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL, 13 Hydref 2016

Adroddiad gan Medrwn Môn

Strategaeth/Gweledigaeth ynglyn a gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector wirfoddol ar Ynys Môn

1. Pam creu strategaeth/gweledigaeth?

Mae newidiadau difrifol yn yr hinsawdd sy'n effeithio ar y berthynas rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a'r sector wirfoddol ar yr Ynys e.e. cyllidol, deddfwriaethol, cymdeithasol (*enghreifftiau cadarn*) yn gofyn am well dealltwriaeth ynglyn a beth sydd gan y sector i gynnig i weithio yn fwy effeithiol mewn partneriaeth a'r Cyngor er budd y gymuned ar Môn.

Yr hér sy'n ein gwynebu yw trawsnewid y modd mae cynnal a datblygu gwasanaethau yn y gymuned ac, lle'n briodol, defnyddio cryfderau'r sector a'r gymuned.

Bydd y strategaeth hwn yn harnessu cyfalaf cymdeithasol ein gymunedau, creu cysylltiadau defnyddiol newydd drwy ddatblygu a gwella gwydnwch a llesiant.

Hefyd bydd y strategaeth yn cydlynu yr hyn sydd wedi ddatblygu eisioes e.e. y Compact, y Cód Cyllido a'r Polisi Gwirfoddoli, Polisi Partneriaeth.

2. Beth yw ein dealltwriaeth o'r sector wirfoddol?

Y diffiniad o'r sector wirfoddol a dderbynir yng Ngymru yw: 'cyrff gwirfoddol, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunan gymorth, cwmnïau cydweithredol, a mentrau cymdeithasol, sefydliadau crefyddol a chyrff a mudiadau eraill nad ydynt yn gweithredu er mwyn gwneud elw ac sy'n dod a budd i gymuned a phobl Cymru' (*Gweler hefyd diffiniad yn y Cód Cyllido*)

Mae cyfalaf cymdeithasol yn golygu'r rhwydweithiau o gysylltiadau ymysg unigolion a mudiadau sy'n gweithio ac yn byw mewn cymdeithas neilltuol sy'n galluogi'r gymdeithas hwnnw i weithredu yn effeithiol.

Bydd y Strategaeth yma y ein galluogi i ddealt pa wasanaethau all y sector wirfoddol gynnig ond ar y llaw arall bydd dealltwriaeth ynglyn a beth sydd ddim yn addas iddynt gyflawni.

3. Pwrpas – Sut bydd hyn yn ein cynorthwyo?

Bydd y strategaeth/gweledigaeth yn ein galluogi i weithio'n fwy effeithiol gyda'n partneriaid yn y sector wirfoddol ac i ddatblygu cyfleon strwythiedig iddynt gynnal gwasanaethau o fudd i'r gymuned.

Cyflenwir hyn drwy'r canlynnol:

- i. **Ymgysylltu Cyhoeddus** – hawl i unigolion a mudiadau lleisio barn; ymgysylltu gyda unigolion a draganod barn; gwneud

gwahaniaeth i unigolyn/mudiad drwy galluogi gweithredu; cynyddu cydraddoldeb drwy llais cryf ar y cyd.

- ii. **Cynyddu Cefnogaeth** – darganfod angen a dyheuiadau lleol; deallt bylchau ac anghenion lleol; cynllunio a cydlynu gwasanaethau wrth ymateb i'r bylchau ac anghenion lleol; ymddiried a datblygu yn y gallu lleol i ymateb; edrych am yr adnoddau am cynaladwyedd; cefnogi dilyniant wrth gryfhau rhwydweithiau lleol.
- iii. **Cydweithio** – sefydlu cydberthynas gyda partneriaid; adeiladu perthynas traws-sector; cefnogi cyflewni gwasanaeth gan un neu fwy o gyflenwyr y sector wirfoddol; lleihau rhwystrau diwylliannol a cynyddu gweithredu mewn parthneriaeth.

4. Buddion – Pa wahaniaeth fydd hyn yn wneud?

Gwelir y gwahaniaethau canlynol drwy ddatblygu'r strategaeth/gweledigaeth:

Gwell dealltwriath o'r maint á'r hyd o'r gweithgareddau mae'r sector wirfoddol yn gyflawni ar Ynys Môn

Gwell dealltwriaeth o anghenion heb ymateb yn arwain at gynllunio gwell

Creu fframwaith i ymateb

Adnabod hawl y sector wirfoddol i herio penderfyniadau drwy y Panel Dinasyddion /

Cyfrannu a chyfoethogi Strwythur Sgriwtini

Trefn i gydlynu a chreu strwythurau newydd mewn perthynas i anghenion

Dadansoddiad cyfredol o fylchau mewn gwasanaeth

Gwella perthynas gweithio ar y cyd traws-sector

Gwella cynllunio at ledaenu cyllid ac adnoddau

Cydnabod pa bartner all gyflawni gwasanaeth yn fwy effeithiol

Gwell cydlyniant i asesu a cyllido anghenion sy'n codi

Mwy o gyfleon datblygu sgiliau gwirfoddolwyr

Sefydlu ffrawaith sicrwydd ansawdd i'r sector

Sefyllfa rheolaidd i ddatrys problemau Ynys Môn

Cydgordio adnoddau ychwanegol allannol.

5. Cynlluniau/Polisiau/cyfredol sy'n cefnogi

Cenedlaethol:

Alternative delivery models in public service delivery

The Principles for Working with Communities

Datganiad Gwirfoddoli

Lleol:

a. Compact

- b Côt Cyllido
- c Polisi Gwirfoddoli
- ch Strategaeth Partneriaethau
- d Llesiau Lleol
- dd Bwrdd Ymgysylltu
- e Panel Dinasyddion
AYB etc.

6. Cysylltiadau cyfredol

Pwyllgor Cyswllt
Bwrdd Ymgysylltu
AOHN
Bwrdd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
IDB
Partneriaeth Môn
Fforwm Iaith